



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif. 1477 (Cy. 316)

2020 No. 1477 (W. 316)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020**

**The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Restrictions) (Amendment)
(No. 3) (Wales) Regulations 2020**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1219 (Cy. 276)) ("Rheoliadau Rhif 4").

These Regulations make amendments to the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) (the "International Travel Regulations") and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1219 (W. 276)) (the "No. 4 Regulations").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemtio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales to isolate for a period determined in accordance with the Regulations. The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply. Persons entering Wales after being in one or more of the countries and territories listed in Schedule 3 to the International Travel Regulations are not required to isolate.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn lleihau'r cyfnod pan fo'n ofynnol i berson ynysu o 14 o ddiwrnodau i 10 niwrnod.

Regulation 2 amends the International Travel Regulations to reduce the period for which a person is required to isolate from 14 days to 10 days.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol sydd â'r effaith na fydd ond yn ofynnol i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i ynysu o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ynysu am 10 niwrnod, pan ddaw'r diwygiadau yn rheoliad 2 i rym. Os yw'r person eisoes wedi mynd heibio 10^{fed} diwrnod ei ynysiad ar y pwynt hwnnw, caiff roi'r gorau i ynysu ar unwaith.

Regulation 3 makes transitional provision with the effect that a person who is subject to an isolation requirement under the International Travel Regulations when the amendments in regulation 2 come into force will only be required to isolate for a period of 10 days. If the person is already beyond the 10th day of their isolation period at that point, they may immediately stop isolating.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Rhif 4 er mwyn—

- (a) darparu bod cyfnod ynysu person yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y digwyddiad sy'n sbarduno'r gofyniad (er enghraifft – prawf positif, y diwrnod cyntaf y profir symptomau, neu'r diwrnod pan ddaethpwyd i gysylltiad agos â person sydd wedi cael prawf positif);
- (b) darparu bod rhaid i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i ynysu o dan reoliad 13 neu 14 o Reoliadau Rhif 4 o ganlyniad i fod wedi dod i gysylltiad agos â pherson sydd wedi cael prawf positif am y coronafeirws ynysu am 10 niwrnod yn hytrach na 14 o ddiwrnodau;
- (c) caniatáu i blentyn y mae'n ofynnol iddo ynysu o dan reoliad 12 neu 14 o Reoliadau Rhif 4 symud rhwng aelwydydd ei rieni yn ystod y cyfnod ynysu os yw hyn yn cyd-fynd â threfniadau sydd eisoes yn bodoli yn ymwneud â gwarchodaeth a chyswllt â rhieni'r plentyn;
- (d) hepgor y gallu i swyddog olrhain cysylltiadau ddatgelu gwybodaeth am gosbau penodedig neu achosion troseddol a ddygir mewn perthynas â chyflawni trosedd o dorri'r gofynion a osodir gan ddarpariaethau Rheoliadau Rhif 4 yn ymwneud â gofynion ynysu (nid yw'r wybodaeth honno ar gael i swyddogion olrhain cysylltiadau felly nid oedd angen y ddarpariaeth hon).

Mae rheoliad 5 yn darparu bod person sy'n ddarostyngedig i ofyniad i ynysu o dan Reoliadau Rhif 4 pan ddaw'r diwygiadau yn rheoliad 4(2) i rym yn ddarostyngedig i'r gofynion hynny fel y'u diwygir gan reoliad 4(2). Er enghraifft, os yw'r person yn ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau caiff y cyfnod hwnnw ei ostwng i 10 niwrnod pan ddaw'r diwygiadau i rym. Os yw'r person eisoes wedi mynd heibio 10^{fed} diwrnod ei ynysiad ar y pwynt hwnnw, caiff roi'r gorau i ynysu ar unwaith.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 4 amends the No. 4 Regulations to—

- (a) provide that a person's period of isolation begins on the day after the event which triggers the requirement (for example – a positive test, the first day that symptoms are experienced, or the day when close contact with a person who has tested positive occurred);
- (b) provide that a person subject to a requirement under regulation 13 or 14 of the No. 4 Regulations to isolate as a result of having had close contact with a person who has tested positive for coronavirus must isolate for 10 days instead of 14;
- (c) permit a child who is required to isolate under regulation 12 or 14 of the No. 4 Regulations to move between parental households during the period of isolation if this is in line with existing arrangements relating to custody and contact with the child's parents;
- (d) remove the ability for a contact tracer to disclose information about fixed penalties issued or criminal proceedings brought in relation to the commission of an offence of contravening the requirements imposed by the provisions of the No. 4 Regulations relating to isolation requirements (contact tracers do not have access to that information so this provision was redundant).

Regulation 5 provides that when the amendments in regulation 4(2) come into force is subject to an isolation requirement under the No. 4 Regulations is subject to those requirements as amended by regulation 4(2). For example, if the person is isolating for a period of 14 days that period is reduced to 10 days when the amendments come into force. If the person is already beyond the 10th day of their isolation period at that point, they may immediately stop isolating.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2020 Rhif. 1477 (Cy. 316)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020**

Cymeradwywyd gan Senedd Cymru

Gwnaed am 3.52 p.m. ar 8 Rhagfyr 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 6.00 p.m. ar 8 Rhagfyr 2020*

Yn dod i rym 10 Rhagfyr 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

2020 No. 1477 (W. 316)

PUBLIC HEALTH, WALES

**The Health Protection
(Coronavirus, International Travel
and Restrictions) (Amendment)
(No. 3) (Wales) Regulations 2020**

Approved by Senedd Cymru

Made at 3.52 p.m. on 8 December 2020

*Laid before Senedd
Cymru at 6.00 p.m. on 8 December 2020*

Coming into force 10 December 2020

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45B, 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

(1) 1984 p. 22. Mewnysodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym 10 Rhagfyr 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) ystyr y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(2), a
- (b) ystyr “Rheoliadau Rhif 4” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) 2020(3).

Diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

2. Yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol—

- (a) yn y manau a ganlyn, yn lle “14” rhodder “10” (gan dreiglo yn ôl yr angen)—
 - (i) rheoliad 3(1)(b)(ii);
 - (ii) rheoliad 7(1)(b)(ii);
 - (iii) rheoliad 8(1)(b);
 - (iv) Atodlen 1, paragraff 2(ia);
 - (v) Atodlen 2, paragraffau 2(1)(a), 3(1)(b), 4(a), a 38(2)(c);
- (b) yn rheoliad 10(4), ar ôl paragraff (e) mewnosoder—

“(ea) pan fo P yn blentyn nad yw'n byw ar yr un aelwyd â rhieni P, neu ag un o rieni P, i barhau â threfniant sydd eisoes yn bodoli er mwyn cael mynediad at, a chyswllt rhwng, P a rhieni P, ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, mae “rhiant” yn cynnwys person nad yw'n rhiant i P, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros P, neu sy'n gofalu amdano;”

-
- (2) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/942, O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295) ac O.S. 2020/1362 (Cy. 301).
- (3) O.S. 2020/1219 (Cy. 276) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286) ac O.S. 2020/1409 (Cy. 311).

Title, coming into force and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (No. 3) (Wales) Regulations 2020.

(2) These Regulations come into force on 10 December 2020.

(3) In these Regulations—

- (a) the “International Travel Regulations” means the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1), and
- (b) the “No.4 Regulations” means the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020(2).

Amendment of the International Travel Regulations

2. In the International Travel Regulations—

- (a) in the following places, for “14” substitute “10”—
 - (i) regulation 3(1)(b)(ii);
 - (ii) regulation 7(1)(b)(ii);
 - (iii) regulation 8(1)(b);
 - (iv) Schedule 1, paragraph 2(ia);
 - (v) Schedule 2, paragraphs 2(1)(a), 3(1)(b), 4(a), and 38(2)(c);
- (b) in regulation 10(4), after paragraph (e) insert—

“(ea) where P is a child who does not live in the same household as P's parents, or one of P's parents, to continue existing arrangements for access to, and contact between, P and P's parents, and for the purposes of this subparagraph, “parent” includes a person who is not a parent of P, but who has parental responsibility for, or who has care of, P;”

-
- (1) S.I. 2020/574 (W. 132) as amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220), S.I. 2020/1015 (W. 226), S.I. 2020/1042 (W. 231), S.I. 2020/942, S.I. 2020/1080 (W. 243), S.I. 2020/1098 (W. 249), S.I. 2020/1133 (W. 258), S.I. 2020/1165 (W. 263), S.I. 2020/1191 (W. 269), S.I. 2020/1223 (W. 277), S.I. 2020/1232 (W. 278), S.I. 2020/1237 (W. 279), S.I. 2020/1288 (W. 286), S.I. 2020/1329 (W. 295) and S.I. 2020/1362 (W. 301).
- (2) S.I. 2020/1219 (W. 276) as amended by S.I. 2020/1237 (W. 279), S.I. 2020/1288 (W. 286) and S.I. 2020/1409 (W. 311).

- (c) yn rheoliad 12, yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau ar” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau ar y diwrnod ar ôl”.

- (c) in regulation 12, for “14 days beginning with” substitute “10 days beginning with the day after”.

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 10 Rhagfyr 2020—

- (a) oedd person (“P”) yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu, a
- (b) byddai diwrnod olaf ynysiad P, oni bai am baragraff (2), yn 10 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny.

(2) Mae rheoliad 12 o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys i P fel pe bai “10 niwrnod sy’n dechrau ar y diwrnod ar ôl” wedi ei roi yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau ar”.

(3) Ym mharagraff (1)—

- (a) mae i “gofyniad i ynysu” yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, a
- (b) mae’r cyfeiriad at ddiwrnod olaf ynysiad P i’w ddehongli yn unol â rheoliad 12 o’r Rheoliadau hynny.

Diwygio Rheoliadau Rhif 4

4.—(1) Mae Rheoliadau Rhif 4 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 11—

- (a) ym mharagraff (4), yn lle “â” rhodder “â’r diwrnod ar ôl”;
- (b) ym mharagraff (5), ar ôl “dechrau â’r” mewnosoder “diwrnod ar ôl y”.

(3) Yn rheoliad 12—

- (a) ym mharagraff (4), yn lle “â” rhodder “â’r diwrnod ar ôl”;
- (b) ym mharagraff (5), ar ôl “dechrau â’r” mewnosoder “diwrnod ar ôl y”.

(4) Yn rheoliad 13—

- (a) ym mharagraff (4), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl y”;
- (b) ym mharagraff (5)—
 - (i) yn is-baragraff (a), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl y”;
 - (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl”.

Transitional provision in connection with regulation 2

3.—(1) Paragraph (2) applies where, immediately before 10 December 2020—

- (a) a person (“P”) was subject to an isolation requirement, and
- (b) P’s last day of isolation would, but for paragraph (2), be 10 December 2020 or later.

(2) Regulation 12 of the International Travel Regulations applies to P as if for “14 days beginning with” there were substituted “10 days beginning with the day after”.

(3) In paragraph (1)—

- (a) “isolation requirement” has the meaning given by regulation 10(2) of the International Travel Regulations, and
- (b) the reference to P’s last day of isolation is to be interpreted in accordance with regulation 12 of those Regulations.

Amendment of the No. 4 Regulations

4.—(1) The No. 4 Regulations are amended as follows.

(2) In regulation 11—

- (a) in paragraph (4), after “beginning with” insert “the day after”;
- (b) in paragraph (5), after “beginning with” insert “the day after”.

(3) In regulation 12—

- (a) in paragraph (4), for “beginning with the date” substitute “beginning with the day after the day”;
- (b) in paragraph (5), after “beginning with” insert “the day after”.

(4) In regulation 13—

- (a) in paragraph (4), for “14 days beginning with” substitute “10 days beginning with the day after”;
- (b) in paragraph (5)—
 - (i) in sub-paragraph (a), for “14 days beginning with” substitute “10 days beginning with the day after”;
 - (ii) in sub-paragraph (b), for “14 days beginning with” substitute “of 10 days beginning with the day after”.

(5) Yn rheoliad 14—

- (a) ym mharagraff (4), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl y”;
- (b) ym mharagraff (5)—
 - (i) yn is-baragraff (a), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl y”;
 - (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “14 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r” rhodder “10 niwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl”.

(6) Yn rheoliad 15(2), ar ôl is-baragraff (h) mewnosoder—

“(i) pan fo’r person yn blentyn nad yw’n byw ar yr un aelwyd â rhieni’r plentyn, neu ag un o rieni’r plentyn, parhau â threfniant sydd eisoes yn bodoli er mwyn cael mynediad at, a chyswllt rhwng, y plentyn a rhieni’r plentyn, ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, mae “rhiant” yn cynnwys person nad yw’n rhiant i’r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, neu sy’n gofalu amdano.”

(7) Yn rheoliad 18(2)(a), hepgorer paragraff (iv).

(5) In regulation 14—

- (a) in paragraph (4), for “14 days beginning with” substitute “10 days beginning with the day after”;
- (b) in paragraph (5)—
 - (i) in sub-paragraph (a), for “14 days beginning with” substitute “10 days beginning with the day after”;
 - (ii) in sub-paragraph (b), for “14 days beginning with” substitute “of 10 days beginning with the day after”.

(6) In regulation 15(2), after sub-paragraph (h) insert—

“(i) where the person is a child who does not live in the same household as the child’s parents, or one of the child’s parents, to continue existing arrangements for access to, and contact between, the child and the child’s parents, and for the purposes of this sub-paragraph, “parent” includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child.”

(7) In regulation 18(2)(a), omit paragraph (iv).

Transitional provision in connection with regulation 4

5. Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4 Pan fo person, yn union cyn 10 Rhagfyr 2020, yn ddarostyngedig i ofyniad yn rheoliad 11(2), 12(2), 13(2) neu 14(2) o Reoliadau Rhif 4, mae Rhan 4 o’r Rheoliadau hynny yn gymwys i’r person sy’n ddarostyngedig i’r diwygiadau a wneir yn rheoliad 4 o 10 Rhagfyr 2020.

5. Where a person is, immediately before 10 December 2020 subject to a requirement in regulation 11(2), 12(2), 13(2) or 14(2) of the No. 4 Regulations, Part 4 of those Regulations applies from 10 December 2020 to the person subject to the amendments made in regulation 4.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 3.52 p.m. ar 8 Rhagfyr 2020

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
At 3.52 p.m. on 8 December 2020

©©Hawlfraint y Goron 2021

© Crown copyright 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1477>

ISBN 978-0-348-11930-5



9 780348 119305